OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1786

## Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000

## RHAN II

### RHOI BATHODYNNAU, EU PARHAD, A'U DIDDYMU

**Disgrifiadau o bersonau anabl**

**4.**—(1) Y disgrifiadau rhagnodedig o berson anabl y gall awdurdod lleol roi bathodyn person anabl iddo yw person dros ddwy flwydd oed sydd yn cyfateb ag un neu fwy o'r disgrifiadau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y disgrifiadau yw person sydd —

(a) yn derbyn y cyfradd uwch o gydran symudedd y lwfans byw i'r anabl yn unol ag adran 73 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (**1**);

(b) yn defnyddio cerbyd modur a ddarparwyd gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol neu Weithrediaeth yr Alban neu sy'n derbyn grant yn unol ag adran 5(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (**2**) neu adran 46 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yr Alban) 1978 (**3**);

(c) wedi'i gofrestru'n ddall o dan adran 29(4)(g) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (**4**)) neu, yn yr Alban, sydd yn berson dall o fewn ystyr adran 64(1) o'r Deddf honno;

(ch) yn derbyn atodiad symudedd o dan erthygl 26A o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth y Lluoedd Morwrol, Milwrol ac Awyrol ayb. (Anabledd a Marwolaeth) 1983 (**5**) gan gynnwys unrhyw atodiad yn rhinwedd unrhyw gynllun neu orchymyn o dan erthygl 25A o Gynllun Anafiadau Personol (Gweithwyr Sifil) 1983 (**6**);

(d) yn gyrru cerbydau modur yn rheolaidd; sydd ag anabledd difrifol i'w ddwy fraich a heb allu defnyddio'i ddwylo i droi llyw cerbyd modur hyd yn oed os oes nobyn troi wedi'i ffitio i'r llyw; neu

(dd) ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n achosi anallu i gerdded neu anhawster cerdded sylweddol iawn.

---

(**1**) 1992 p.4.
(**2**) 1977 p.49.
(**3**) 1978 p.29.
(**4**) 1948 p.29.
(**5**) O.S. 1983/883, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1983/1116 ac 1121, 1984/1154 ac 1687, 1985/1201, 1986/592, 1988/248 a 2248, 1989/156, 1990/250 ac 1308, 1991/766, 1992/710 a 3208, 1993/598, 1994/772 ac 1906, 1995/766, 1996/732, 1638 a 2282, ac 1997/286.
(**6**) O.S. 1983/686, a ddiwygiwyd gan O.S. 1983/1164 ac 1540, 1984/1289 ac 1675, 1985/1313, 1986/628, 1987/191, 1988/367 a 2260, 1989/415, 1990/535 ac 1300, 1991/708, 1992/702 a 3226, 1993/480, 1994/715 a 2021, 1996/445 a 502, 1997/812, ac 1998/278.

**Bathodynnau sefydliad**

**5.** Caiff awdurdod roi bathodyn sefydliad i sefydliad ar gyfer cerbyd modur pan fydd y cerbyd i'w ddefnyddio i gario personau anabl fel y'i pennir yn rheoliad 4(2).

**Ffi am roi bathodyn a chyfnod y rhoi**

**6.**—(1) Ni chaiff awdurdod lleol godi ffi o fwy na £2 am roi bathodyn person anabl.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 7(2) a 9, rhoddir bathodyn person anabl am gyfnod o dair blynedd yn dechrau gyda'r dyddiad rhoi.

**Bathodynnau yn lle rhai a gollwyd ayb**

**7.**—(1) Pan fydd bathodyn person anabl ("y bathodyn gwreiddiol") wedi ei golli, wedi ei ddwyn neu wedi ei ddinistrio, neu wedi ei ddifrodi neu wedi colli ei liw gymaint fel nad yw'n ddigon ddarllenadwy pan arddangosir ef ar gerbyd modur, gellir rhoi bathodyn yn lle hwnnw gyda'r gair "dyblygiad" wedi ei farcio ar ei flaen.

(2) Bydd bathodyn yn lle un arall yn ddilys o'r dyddiad y'i rhoddir hyd nes y byddai'r bathodyn gwreiddiol wedi peidio â bod yn ddilys.

**Seiliau dros wrthod rhoi bathodyn**

**8.**—(1) Gall awdurdod lleol wrthod rhoi bathodyn ar unrhyw un o'r seiliau â bennir ym mharagraff (2).

(2) Y seiliau yw —

(a) bod y ceisydd yn dal neu wedi dal bathodyn a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn neu o dan Reoliadau 1982 a bod camddefnydd wedi arwain at o leiaf dair collfarn berthnasol;

(b) bod y ceisydd yn methu â rhoi i'r awdurdod lleol dystiolaeth ddigonol —

(i) yn achos unigolyn, ei fod yn berson sy'n cyfateb ag un neu fwy o'r disgrifiadau a ragnodwyd gan reoliad 4;

(ii) yn achos sefydliad, ei fod yn sefydliad sy'n gymwys i wneud cais am fathodyn person anabl yn unol â rheoliad 5;

(c) bod y ceisydd yn methu â thalu'r ffi (os oes un) sy'n daladwy am roi bathodyn; neu

(ch) bod gan yr awdurdod lleol seiliau rhesymol dros gredu —

(i) nad y person a honnir yw'r ceisydd; neu

(ii) y byddai'r ceisydd yn caniatáu i berson arall (na roddwyd y bathodyn iddo) arddangos y bathodyn ar gerbyd modur.

(3) Pan gaiff awdurdod lleol gais am fathodyn person anabl ac yn gwrthod rhoi un, rhaid iddo roi manylion o'r seiliau dros wrthod i'r ceisydd yn yr hysbysiad penderfynu.

**Dychwelyd bathodyn i'r awdurod rhoi**

**9.**—(1) Rhaid dychwelyd bathodyn person anabl i'r awdurdod rhoi yn syth pan ddigwydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol —

(a) bod y cyfnod y rhoddwyd y bathodyn ar ei gyfer wedi dod i ben;

(b) marwolaeth y deiliad, neu, yn achos bathodyn sefydliad, fod y sefydliad wedi peidio â bod;

(c) bod deiliad y bathodyn wedi peidio â bod yn berson anabl, neu, yn achos bathodyn sefydliad, fod y sefydliad wedi peidio â bod yn gymwys o dan reoliad 5;

(ch) bod bathodyn wedi ei roi o dan reoliad 7 yn lle un a gollwyd neu a ddygwyd a bod y bathodyn gwreiddiol wedi ei ddarganfod neu wedi ei adfer;

(d) bod y bathodyn wedi ei ddifrodi neu wedi colli ei liw gymaint fel nad yw'n eglur ddarllenadwy pan arddangosir ef ar gerbyd modur;

(dd) nad oes ar y deiliad angen y bathodyn mwyach.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaeth rheoliad 10, rhaid dychwelyd bathodyn person anabl i'r awdurdod rhoi o fewn y cyfnod a ragnodwyd, os yw'r awdurdod yn rhoddi hysbysiad i'r deiliad —

(a) yn datgan bod yr awdurdod yn gwrthod caniatáu i'r bathodyn barhau i gael ei ddefnyddio oherwydd bod camddefnydd wedi arwain at gollfarn berthnasol ar o leiaf dri achlysur gan roi manylion y camddefnydd hwnnw; neu

(b) yn datgan bod yr awdurdod wedi'i fodloni bod y bathodyn wedi ei gael drwy anwiredd.

(3) At ddibenion paragraff (2), y cyfnod a ragnodwyd yw —

(a) os na wneir apêl yn unol â rheoliad 10, y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad o dan baragraff (2) uchod;

(b) os gwneir apêl yn unol â rheoliad 10(1) ac na chaniateir yr apêl, bydd y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoddi hysbysiad o'i benderfyniad ar yr apêl.

(4) Caiff yr awdurdod rhoi gymryd unrhyw gamau sy'n briodol i gael bathodyn person anabl yn ôl y mae'r deiliad yn gorfod ei ddychwelyd yn unol â'r rheoliad hwn.

### Apelau

**10.**—(1) Caiff ceisydd am fathodyn person anabl y gwrthodwyd ei gais ar y sail a bennir yn rheoliad 8(2)(a) neu ddeiliad bathodyn y gofynnwyd iddo ei ddychwelyd yn unol â rheoliad 9(2) apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Gwneir yr apêl drwy hysbysiad a roddir o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad rhoi hysbysiad o'r penderfyniad a bydd y weithdrefn a bennir yn narpariaethau canlynol y rheoliad hwn yn gymwys, ac eithrio, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod hynny'n briodol mewn achos penodol, y caiff yntau benderfynu ar apêl er na chydymffurfiwyd â pharagraffau (3) i (5).

(3) Rhaid i hysbysiad yr apêl gael ei ddyddio a'i lofnodi gan yr apelydd (neu gan berson a awdurdodwyd i lofnodi ar ei ran) a rhaid iddo ddatgan seiliau'r apêl.

(4) Rhaid cyflwyno hysbysiad yr apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol naill ai drwy ei bostio mewn amlen a dalwyd ymlaen llaw neu drwy ei thraddodi'n bersonol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(5) Pan ddaw'r apêl i law rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi ohoni at yr awdurdod lleol yr apelir yn erbyn ei benderfyniad ac, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad apêl, rhaid i'r awdurdod lleol anfon at y Cynulliad Cenedlaethol —

(a) copi o'r hysbysiad a roddwyd ganddo i'r apelydd yn unol â rheoliad 8(3) neu 9(2); a

(b) unrhyw sylwadau y mae'n dymuno i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar yr apêl.

(6) Caiff yr apelydd wneud sylwadau mewn ymateb i sylwadau'r awdurdod lleol o fewn y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y sylwadau hynny.

(7) Rhaid i unrhyw sylwadau a wneir gan yr awdurdod lleol neu'r apelydd gael eu harwyddo a'u dyddio a'u hanfon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad sydd arnynt.

(8) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol mewn unrhyw achos penodol roi cyfarwyddiadau yn pennu terfynau amser hwyrach na'r rhai a ragnodir gan y Rheoliadau.

(9) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ar yr apêl rhaid iddo—

(a) hysbysu'r apelydd o'i benderfyniad a'r rhesymau drosto; a

(b) anfon copi o'r hysbysiad at yr awdurdod lleol.

(10) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthod apêl, rhaid i'r apelydd ddychwelyd y bathodyn person anabl i'r awdurdod lleol o fewn yr amser a ragnodir gan reoliad 9(3)(b).

(11) Yn y rheoliad hwn mae cyfeiriadau at sylwadau yn cynnwys cyfeiriad at ddogfennau cefnogol.